Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Maes Y Gwendraeth

**74 Heol Y Parc**
**Cefneithin, Llanelli**
**SA14 7DT**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drefniadau arolygu peilot. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

# Ynglŷn ag Ysgol Maes Y Gwendraeth

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Maes Y Gwendraeth |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1108 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 927 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 181 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.2%) | 12.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 17.8%) | 17.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 56.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/10/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/11/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r parch amlwg rhwng disgyblion a staff Ysgol Maes y Gwendraeth a'r ethos fugeiliol gref yn elfennau nodedig. Mae gofal staff am y disgyblion yn glir a'u hadnabyddiaeth ohonynt yn dda. Mae'r disgyblion yn cyfleu balchder o fod yn aelodau o gymuned yr ysgol a theimla'r rhan fwyaf ohonynt bod ganddynt rywun i droi atynt pe bai angen. Mae awyrgylch gyfeillgar a chroesawgar yn yr ysgol ac mae'r disgyblion yn cyfathrebu'n huawdl ag ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi. Serch hyn, nid yw presenoldeb disgyblion, yn enwedig rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn ddigon uchel.

Mewn llawer o wersi, mae addysgu o ansawdd da yn golygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn gyffredinol. Mewn ychydig o wersi arbennig o effeithiol ble mae'r cynllunio'n grefftus iawn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf a buan. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu oherwydd nad yw'r athrawon wedi cynllunio'r gwersi'n ddigon gofalus er mwyn darparu lefel addas o her. Mewn ychydig o wersi, mae disgwyliadau athrawon yn rhy isel. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi bod yn arbrofi â dulliau gwahanol o asesu gwaith disgyblion. Mae hyn wedi arwain at adborth buddiol i ddisgyblion mewn rhai achosion ond at arferion asesu mwy amrywiol o ran effaith mewn achosion eraill.

Mae'r cwricwlwm yn darparu ystod o gyfleoedd gwerthfawr o fewn gwersi a thu hwnt i'r dosbarth i'r holl ddisgyblion. Mae effaith y ddarpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd, rhif a digidol disgyblion i'w gweld yn y datblygiad cadarnhaol mae llawer o'r disgyblion yn ei wneud mewn llawer o agweddau o'u medrau. Mae'r ddarpariaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu disgyblion fel dinasyddion cyfrifol a gwybodus yn nodedig. Darperir myrdd o brofiadau diddorol a pherthnasol i'r disgyblion trwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) a lles, trwy gyfleoedd i ddisgyblion leisio eu barnau ac arwain, a thrwy'r cyngor a'r arweiniad a roir iddynt ynghylch y camau nesaf yn eu bywydau, yn enwedig byd gwaith.

Canolfan yr Eithin yw canolfan arbennig yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag awtisiaeth. Lleolir y ganolfan yng nghanol yr ysgol a chaiff y disgyblion ynddi bob cyfle i ymgymryd â bywyd yr ysgol. Mae staff y ganolfan yn darparu ardaloedd a chyfleoedd ysgogol sydd yn ymateb yn dda i anghenion y disgyblion, gan eu galluogi i wneud cynnydd da. Mae'r berthynas gynhaliol â rhieni'r disgyblion hyn yn nodwedd arbennig.

Er bod y pennaeth newydd wedi bod yn ei rôl ers llai na blwyddyn, mae'n uchel ei barch ymysg staff a disgyblion ac mae ganddo weledigaeth glir. Mae wedi cyflwyno newidiadau pwysig er mwyn gweithredu'n fwy strategol ac er mwyn cefnogi lles staff. Mae staff yn elwa o'r diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol yn yr ysgol a'r cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu'u harfer ac ehangu'u profiadau.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hunanwerthuso buddiol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o brif gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Er eu bod yn defnyddio ystod addas o dystiolaeth, nid yw eu

defnydd na'u dadansoddiadau o'r wybodaeth hon, yn enwedig data, bob amser yn ddigon trylwyr na miniog. O ganlyniad, nid ydynt yn gyson gefnogi'r broses hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn llawn. Mae'r llywodraethwyr yn daer dros ddarparu addysg Gymraeg yn yr ardal ond nid yw eu rôl fel cyfeillion beirniadol wedi ei datblygu'n ddigonol.

**Prif arfarniad 6ed dosbarth**

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn ddisgyblion aeddfed a balch. Maent yn genhadon brwd dros yr ysgol sydd yn ymfalchïo yn eu rolau arwain a mentora disgyblion iau. Yn eu gwersi, maent yn ymgymryd yn llawn â'u dysgu, gan ddangos diddordeb yn eu hastudiaethau. Mae eu medrau llafar yn arbennig o gryf a gallant siarad yn rhugl a hyderus. Maent yn gwneud cynnydd cadarn, ar y cyfan.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud 3 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Gwella presenoldeb disgyblion ac effaith y cyfundrefnau i wneud hynny

A2 Cryfhau'r defnydd o ddata er mwyn cefnogi'r broses hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella a sicrhau bod meysydd i'w gwella yn ddigon miniog

A3 Datblygu rôl y corff llywodraethol yn llawn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'r ddarpariaeth i ddatblygu disgyblion fel dinasyddion cyfrifol a gwybodus, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Addysgu a dysgu**

Elfen nodedig o'r rhan fwyaf o wersi yw'r perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng staff a disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon ag adnabyddiaeth dda o'u disgyblion ac mae eu gofal amdanynt yn amlwg. Creant amgylchedd dysgu pwrpasol a meddant ar wybodaeth bynciol gadarn. O ganlyniad i'r nodweddion ysgogol hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu, gan ddilyn cyfarwyddiadau'n brydlon a bwrw ati i weithio'n gyflym a di-ffwdan. Mae'r rhan fwyaf

yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac mae llawer yn dyfalbarhau a chanolbwyntio’n dda. Maent yn cydweithio’n effeithiol ag eraill a gweithio’n annibynnol yn llwyddiannus.

Mae staff Canolfan yr Eithin yn adnabod cryfderau ac anghenion eu disgyblion yn dda. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o’u disgyblion ac maent yn dathlu’u llwyddiannau’n gyson. Maent yn meithrin perthynas agos, gynhaliol a gofalgar gyda disgyblion ac yn creu a chynnal awyrgylch tawel a threfnus. O ganlyniad i’r rhinweddau hyn, mae bron bob disgybl yn y ganolfan yn gwneud cynnydd da. Mae gan lawer fedrau cyfathrebu da pan fyddant yn sgwrsio gyda’i gilydd ac oedolion. Maent yn gwrando’n ofalus ar oedolion ac ar ei gilydd ac yn mynegi eu dyheadau’n glir. Mae gan y disgyblion sydd â medrau llafar llai datblygedig hefyd ffyrdd llwyddiannus o gyfathrebu. Mae gan lawer fedrau mathemategol sy’n unol â’u gallu. Maent yn cymhwyso rhain yn rheolaidd mewn sefyllfaoedd pob dydd fel pan fyddant yn ymweld â siop leol neu’n coginio yn y gegin. Mae gan lawer fedrau digidol da, yn unol â’u gallu, ac maent yn eu defnyddio’n bwrpasol, er enghraifft i gyrchu gwybodaeth am y Nadolig.

Mae addysgu cadarn llawer o athrawon yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cyffredinol da. Mae ychydig o’r athrawon hyn yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cryf a buan oherwydd addysgu arbennig o effeithiol. Mae rhain yn athrawon sy’n angerddol am eu pynciau, sydd yn tanio brwdfrydedd y disgyblion. Maent yn holi cwestiynau treiddgar sy’n herio’r disgyblion ac yn cynnig adborth ar y pryd sy’n finiog ac yn dyfnhau dealltwriaeth disgyblion. Mae lefel yr her yng ngwersi’r athrawon hyn yn uchel ond mae’r cynllunio gofalus a’r modelu medrus ganddynt yn galluogi disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae llawer o athrawon yn fodelau iaith cryf sy’n atgyfnerthu terminoleg pwnc yn gyson. Maent yn cynllunio’u gwersi’n fwriadus, gan ddarparu tasgau a gweithgareddau sy’n atgyfnerthu a dwyn i gof ddysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn adeiladu ar ei gilydd er mwyn sicrhau cynnydd. Mae’r athrawon hyn yn cynnig esboniadau clir ac yn cwestiynu disgyblion yn rheolaidd er mwyn gwirio’u dealltwriaeth. Cylchant y dosbarth yn gyson, gan gynnig cefnogaeth a rhoi adborth llafar defnyddiol. Ym mwyafrif y gwersi hyn, mae athrawon yn modelu ac enghreifftio yn llwyddiannus, ac yn gwneud defnydd da o feini prawf llwyddiant. Maent yn addasu’u gwersi a chyflymder yr addysgu yn ôl cynnydd, gallu a dysgu disgyblion. Mae lefel yr her yn y gwersi hyn, ynghyd â disgwyliadau’r athrawon yn addas.

Mewn lleiafrif o wersi, er bod disgyblion yn gwneud cynnydd, nid ydynt bob amser yn gwneud cynnydd digon cyson na buan. Nid yw’r gwersi wedi eu cynllunio’n ddigon gofalus i ymateb i anghenion disgyblion o wahanol alluoedd trwy ddarparu lefel o her sy’n addas, yn enwedig er mwyn ymestyn disgyblion mwy abl. Yn y gwersi hyn, nid yw’r athrawon yn gwirio cynnydd disgyblion yn ddigon trylwyr, nac yn addasu’r gwersi o ganlyniad i’w canfyddiadau.

Mewn ychydig o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd addas, yn bennaf oherwydd natur yr addysgu a disgwyliadau rhy isel gan athrawon. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon wedi cynllunio’n bwrpasol ac mae diffyg her. Nid yw eu hesboniadau’n ddigon clir ac maent yn aml yn gor-gyflwyno. Mewn ychydig o

achosion, nid yw athrawon yn fodelau iaith digon cadarn. Maent yn gor-ddefnyddio geiriau Saesneg ac nid ydynt yn herio disgyblion pan nad ydynt yn ymateb yn addas yn Gymraeg.

Mae llawer o athrawon yn cynnig adborth llafar buddiol wrth gylchu ac wrth annerch y dosbarth cyfan. Dros y cyfnod diweddar, mae'r ysgol wedi bod yn arbrofi â dulliau o asesu gwaith disgyblion a darparu adborth iddynt. Er enghraifft, mae adrannau yn arbrofi â thaflenni adborth dosbarth cyfan sy'n cynnig arweiniad cyffredinol buddiol i'r dosbarth. Gan fod yr ysgol mewn cyfnod o arbrofi, mae amrywiaeth o fewn ac ar draws adrannau o ran effaith ac ansawdd yr adborth a'r asesu, yn enwedig i ddisgyblion unigol. O ganlyniad, mae dealltwriaeth disgyblion o beth maent yn ei wneud yn dda a beth sydd angen iddynt ei wella hefyd yn amrywio. Mewn ychydig iawn o achosion, prin iawn yw'r adborth a gynigir i ddisgyblion.

Mae llawer o athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth ond mae'u disgwyliadau o natur ac ansawdd yr ymatebion hyn yn amrywio o fewn ac ar draws adrannau. Pan mae'r disgwyliadau'n glir, mae disgyblion yn gwella eu gwaith a'u medrau wrth gwblhau tasgau ymateb, er enghraifft wrth ailddrafftio'u gwaith ysgrifenedig yn eu gwersi Cymraeg. Ble mae'r disgwyliadau'n isel neu'n aneglur, fodd bynnag, mae'r ymatebion yn arwynebol a'r gwelliannau'n gyfyngedig.

**Cwricwlwm**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion yr ystod o ddysgwyr yn dda. Ceir darpariaeth gynhwysol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 sy'n cynnwys amrywiaeth o gymwysterau gwahanol trwy gyfrwng y Gymraeg, fel mathemateg pellach, peirianneg a chwrs awyr agored. Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm amgen trwy bartneriaeth gyda darparwyr allanol, er enghraifft coleg lleol, ar gyfer ychydig o ddisgyblion penodol. Er mwyn ehangu ar yr arlwy yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth ag ysgolion eraill, er enghraifft trwy gynnig cwrs troseddeg. Yng Nghanolfan yr Eithin, mae'r athrawon yn cynllunio amrywiaeth bwrpasol o weithgareddau a phrofiadau dysgu trawsgwricwlaidd addas.

Mae arweinwyr pob maes dysgu a phrofiad wedi llywio gweledigaeth unigol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru, sy'n anelu at wireddu'r pedwar diben o fewn themâu cytûn. Mae'r cysylltiadau o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad wedi eu datblygu'n dda. Ceir pwyslais gwerthfawr ar ddatblygu gwybodaeth a medrau pynciol o fewn y cwricwlwm i Flynyddoedd 7 ac 8. Mae athrawon wedi arbrofi ag amrywiaeth o strategaethau addysgu a ffyrdd o gydweithio ac wedi mireinio eu cynlluniau yn unol â hynny. Er enghraifft, mae maes dysgu a phrofiad y dyniaethau yn gweithio'n llwyddiannus fel un pwnc ym Mlwyddyn 7 ac 8. Mae athrawon yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'r fforymau dysgu ac addysgu i gyd-drafod addysgeg ffyrdd o ddatblygu medrau a gwybodaeth bynciol disgyblion. Mae cynllun addas ar waith i gydweithio â'r ysgolion cynradd partner ar addysgeg a medrau mewn rhai meysydd dysgu a phrofiad ond mae llai o gydweithio ar agweddau fel asesu cynnydd.

Ceir cyfleoedd buddiol i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hanes a diwylliant yr ardal leol, er enghraifft trwy greu disgrifiadau o Lyn Llech Owain, Fodd bynnag, nid

yw adrannau'n manteisio'n llawn ar gyfleoedd i ddysgu am hanes a phrofiadau cymunedau pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a phobl LHDTC+ nac i ddathlu amrywiaeth a chynhwysiant o fewn cwricwlwm y meysydd dysgu a phrofiad.

Mae'r rhaglen deilwredig ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn gryfder nodedig. Mae'r gwersi iechyd a lles, y sesiynau boreol a gwasanaethau yn cefnogi a chyfoethogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn hynod effeithiol drwy themâu fel perthnasoedd iach, diodydd egni, cwsg a fepio. O ganlyniad, mae disgyblion yn trafod y materion hyn yn aeddfed. Gwna'r ysgol ddefnydd da iawn o asiantaethau allanol fel y Gwasanaeth Iechyd i gryfhau'r ddarpariaeth ymhellach. Er mwyn cynllunio ar gyfer ABCh, mae'r ysgol yn defnyddio data'r rhwydwaith ymchwil iechyd mewn ysgolion, yn gwrando ar rieni a disgyblion ac yn cydweithio'n agos â'r gymuned. Golyga hyn eu bod yn cynllunio'n gydlynus ar gyfer cwricwlwm perthnasol sy'n ymateb i faterion sy'n codi o fewn profiadau'r disgyblion. Mae'r gwaith gyda'r heddlu lleol yn galluogi'r ysgol i ymateb i faterion lleol o bwys ac i ymgymryd ag ymgyrchoedd cymdeithasol, er enghraifft trefnu banc bwyd o fewn yr ysgol. Mae athrawon hefyd wedi cael hyfforddiant defnyddiol o ran addysgeg addas i ddatblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.

Ceir arlwy eang o brofiadau allgyrsiol gwerthfawr i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon, taith scriblwyr a theithiau theatr. Mae'r ysgol yn manteisio ar gysylltiadau buddiol iawn â busnesau lleol, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn cael y cyfle i brofi agweddau o'r byd diwydiant a chyfoethogi eu profiadau cwricwlaidd. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion mwy abl, er enghraifft trwy roi cyfle i astudio TGAU mathemateg pellach a chymryd rhan mewn cystadlaethau cemeg.

Mae'r ysgol yn hybu Cymreictod a hanes a diwylliant Cymru yn effeithiol ac yn annog disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol a chystadlu yn yr Eisteddfod. Rhoddir cyfle i ddisgyblion o bob oedran ymuno â'r fforwm Cymreictod sydd yn trefnu digwyddiadau i ddathlu'r iaith a diwylliant Cymreig.

### Medrau

Mae'r cydlynwyr medrau yn cydweithio'n bwrpasol â staff drwy'r fforymau dysgu ac addysgu i gynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ymarfer a datblygu'u medrau ar draws y cwricwlwm ac i gyflwyno dulliau cyson o ddatblygu agweddau penodol, fel llunio graffiau. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau'n gynyddol o ran her wrth iddynt symud drwy'r ysgol, er nad yw'r gwaith hwn wedi datblygu'n llawn o ran cymhwysedd ddigidol ac agweddau ar lythrennedd. Mae ymyriadau addas i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion penodol, gan gynnwys sesiynau iaith yn y Ganolfan Gwên.

Mae gan yr ysgol ystod o strategaethau gwerthfawr er mwyn datblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae effaith gadarnhaol y gwaith i gryfhau medrau llafaredd disgyblion i'w gweld yn amlwg. Mae llawer o ddisgyblion yn eiddgar i gyfrannu at drafodaethau dosbarth, gan roi ar waith y strategaethau maent

wedi eu dysgu er mwyn strwythuro’u hymatebion. Maent yn hyderus ar lafar ac yn mynegi’u hunain yn rhugl gan ddefnyddio cystrawen naturiol Gymreig. Mae’r mwyafrif ohonynt yn gwneud cyfraniadau synhwyrol, gan gynnig sylwadau aeddfed o fewn trafodaethau dosbarth. Er hyn, mae Saesneg yn britho ymatebion Cymraeg lleiafrif o ddisgyblion ac maent yn rhy barod i droi i Saesneg mewn trafodaethau pâr neu grŵp. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio terminoleg pwnc yn bwrpasol ac, yn gyffredinol, mae safon dda o gywirdeb pan maent yn siarad Ffrangeg a Sbaeneg. Mae ychydig o ddisgyblion yn cynnig ymatebion llafar ymestynnol sy’n dwysáu eu dealltwriaeth, fel pan maent yn trafod cymeriad Scrooge yn ‘A Christmas Carol’. Mae ychydig yn rhoi ymatebion cryno iawn sydd yn rhy arwynebol.

Mae disgyblion yn elwa o ystod o gyfleoedd buddiol i ddatblygu’u medrau darllen ar draws y cwricwlwm, er bod tasgau darllen a deall yn sylfaenol iawn, gan ofyn am fedrau adalw yn unig, mewn ychydig o achosion. Pan mae cyfleoedd, mae llawer o’r disgyblion yn darllen ar goedd yn fedrus, gan amrywio mynegiant a goslef. Mae llawer ohonynt yn cywain gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau yn gymwys ac yn dechrau cyfuno gwybodaeth. Yn Ffrangeg, maent yn gallu defnyddio strategaethau’n llwyddiannus i ddehongli geirfa anghyfarwydd a heriol.Gall llawer o ddisgyblion ddehongli ystyr yn briodol, er enghraifft pan maent yn darllen rhwng y llinellau wrth ddarllen y gerdd ‘Bws Ysgol’. Mae mwyafrif y disgyblion yn adnabod a thrafod effaith technegau llenyddol yn briodol yn eu gwersi Cymraeg. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn dadansoddi arddull ysgrifennu na defnyddio terminoleg lenyddol nac ieithyddol yn ddigon hyderus nac aml yn eu gwersi Saesneg.

Mae’r ysgol wedi adnabod yr angen i gryfhau medrau ysgrifennu disgyblion fel blaenoriaeth. Mae amrywiaeth o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu’u medrau ysgrifennu, gan gynnwys ysgrifennu estynedig, ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn strwythuro’u hymatebion ysgrifenedig yn briodol, ar y cyfan, gan ddefnyddio brawddegau a pharagraffau’n drefnus. Maent yn defnyddio terminoleg pwnc yn gywir ac mae eu geirfa’n addas. Pan gânt y cyfle, mae mwyafrif y disgyblion yn dangos medrau ysgrifennu cadarn mewn tasgau ysgrifennu estynedig, gan ysgrifennu’n gymwys mewn ystod o ffurfiau ac ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Serch hyn, nid yw’r ysgol bob amser yn manteisio ar gyfleoedd naturiol i atgyfnerthu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion nac yn darparu cyfleoedd digon cyson iddynt ymarfer y medrau hyn.

Mae’r angen i wella cywirdeb ieithyddol disgyblion hefyd wedi cael ei adnabod fel blaenoriaeth gan yr ysgol. Mae staff wedi datblygu strategaethau ysgol gyfan fel ‘iaith ar waith’ a chod marcio llythrennedd er mwyn mynd i’r afael â hyn. Serch hyn, mae defnydd ac effeithiolrwydd y strategaethau hyn yn anghyson. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu’n gywir, at ei gilydd, ond, yn y Gymraeg a Saesneg, mae lleiafrif yn gwneud gwallau sillafu, treiglo a gramadegol cyffredin.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd yn sicrhau bod profiadau eang a buddiol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso’u medrau rhif mewn cyd-destunau bob dydd. Mae addasiadau i gynlluniau gwaith mathemateg wedi codi disgwyliadau disgyblion Cyfnod Allweddol 3 a sicrhau bod cyfleoedd amrywiol iddynt ymarfer a datblygu’u medrau rhif, gan gynnwys datrys problemau rhif trwy gyflwyno mwy o gwestiynau

geiriol. Mae effaith gadarnhaol y ddarpariaeth hon i'w gweld yn glir ar safonau'r disgyblion iau yn enwedig.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhif yn dda, gydag ychydig ohonynt yn meddu ar fedrau rhif cryf iawn. Mae llawer yn arddangos dealltwriaeth dda o'r pedair rheol rhif. Er enghraifft, maent yn cyfrifo'n gywir pan yn adio a thynnu ffracsiynau syml, cyfrifo canrannau neu'n talgrynnu. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o waith siâp yn effeithiol pan maent, er enghraifft, yn helaethu siapiau ac yn cyfrifo hyd ochrau siapiau, neu pan maent yn cyfrifo diamedr radiws mewn gwersi technoleg. Serch hyn, mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau rhif llai datblygedig; er enghraifft, maent yn gwneud camgymeriadau syml pan maent yn cyfrifo canrannau neu wrth gyfrifo gyda degolion.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio data'n llwyddiannus er mwyn llunio a phlotio graffiau'n gywir. Maent yn dadansoddi graffiau yn briodol er mwyn dod i gasgliadau dilys fel pan maent yn dadansoddi graffiau adweithiau cemegol. Mae tua hanner y disgyblion yn arddangos yr uwch fedr o ddefnyddio data o graffiau'n gywir er mwyn cyfiawnhau casgliadau. Pan maent yn llunio graffiau, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau cyson fel peidio â rhoi teitl ar yr echelin neu ddefnyddio graddfa anghywir.

Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn datblygu'u medrau digidol yn gadarn, wrth iddynt, er enghraifft, ddatblygu gwefan ar y diwydiant glo ym Mlwyddyn 9 ac wrth olygu ffotograffau a thrafod yn wybodus sut aethon nhw ati i wneud hynny. Mae disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio gliniaduron at bwrpasau penodol mewn gwersi.

Ar draws y cwricwlwm, mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'u medrau ehangach. Er enghraifft, maent yn elwa o gyfleoedd i ddatblygu'u medrau creadigol drwy arbrofi er mwyn dylunio ceir Fformiwla 1, creu animeiddiadau a dylunio gwaith celf ar sail teimladau sy'n deillio o wrando ar gerddoriaeth. Maent yn manteisio ar gyfleoedd effeithiol i ddatblygu ystod o weithgareddau corfforol gwahanol yn eu gwersi addysg gorfforol ac wrth ddefnyddio offer yn eu gwersi technoleg. Mae amrywiaeth o gyfleoedd ysgogol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau meddwl. Er enghraifft, defnyddiant fedrau meddwl yn llwyddiannus er mwyn datrys problemau mewn mathemateg neu wrth osod metelau mewn trefn adweithedd mewn gwyddoniaeth.

### Chweched dosbarth

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn gwneud cynnydd cadarn yn gyffredinol a chynnydd cryf mewn ychydig o achosion. Maent yn adalw gwybodaeth flaenorol yn hyderus ac yn ymgysylltu'n llawn yn eu gwersi. Arddangosant agweddau aeddfed a chadarnhaol at eu dysgu. Maent yn barod eu cyfraniadau at drafodaethau dosbarth, gan siarad yn ddeallus a defnyddio geirfa goeth a syniadau soffistigedig, wrth drafod chwedl 'Branwen' yn eu gwersi Cymraeg, er enghraifft.

### Gofal, cymorth a lles

Mae cefnogi lles disgyblion a hyrwyddo goddefgarwch a chynhwysiant yn treiddio trwy bob agwedd o fywyd Ysgol Maes Y Gwendraeth. Caiff hyn ei adlewyrchu yng

ngwerthoedd yr ysgol, sef ‘parod i ddysgu, diogel i ddysgu, parch at ddysgu’. Mae’r parch rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref iawn. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn ddiolchgar am y gefnogaeth maent yn ei derbyn gan y staff. Mae’r ysgol yn gymuned Gymraeg ofalgar a chynhwysol sy’n cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn dda.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn. Maent yn gwrando’n astud ar staff a’u cyfoedion, ac maent yn frwdfrydig wrth ymgymryd â thasgau yn y dosbarth. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion Canolfan yr Eithin yn mwynhau mynychu’r ganolfan a’r ysgol. Maent yn elwa o gael cwmni ac o gyd-ddysgu â disgyblion y brif ffrwd pan fydd yn berthnasol ac addas ac maent yn ystyriol a gofalgar o eraill. Mae gan yr ysgol system wobrwyo lwyddiannus sy’n hyrwyddo a dathlu ymddygiad cadarnhaol sy’n cael ei werthfawrogi gan y disgyblion. Mae disgyblion yn teimlo bod staff yn delio’n effeithiol gydag unrhyw fan achosion o gamymddwyn. Mae gan lawer ohonynt ddisgwyliadau uchel o’u hunain ac maent yn cyfathrebu’n huawdl gydag ymwelwyr, staff a’u cyd-ddisgyblion. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn hwyr i wersi ac o ganlyniad yn amharu ar ddysgu’u cyfoedion.

Mae trefniadau manwl i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel yn golygu bod diwylliant cryf o ddiogelu o fewn yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn teimlo bod staff yn delio’n effeithiol gydag unrhyw achosion o fwlio. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod rhywun yno i’w cefnogi bob amser. Maent yn dweud eu bod yn cael eu parchu o ran hil, rhyw a chrefydd, ac mae llawer yn credu eu bod yn cael eu trin yn deg yn yr ysgol. Ceir trefniadau addas ar gyfer cofnodi a chyfeirio materion diogelu, amddiffyn plant ac achosion o fwlio. Gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o wybodaeth berthnasol o amrywiol ffynonellau i adnabod disgyblion bregus a sicrhau eu bod yn monitro lles y disgyblion hyn yn ofalus. Mae staff a llywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant diogelu buddiol yn rheolaidd ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o’u rolau a sut i gyfeirio unrhyw bryderon.

Mae gan yr ysgol ethos ugeiliol gref sy’n cefnogi disgyblion i lwyddo. Mae’r staff bugeiliol yn meddu ar wybodaeth gynhwysfawr o anghenion disgyblion ac maent yn meithrin perthynas waith agos a phositif â nhw. Rhoddir cefnogaeth bwrpasol i ddisgyblion sydd angen cymorth lles ac ymddygiadol yn y ‘Ganolfan Llesiant’ a’r ‘Ganolfan Ymddygiad’ ac, yn gyffredinol, mae’r ymyriadau’n yn cael effaith briodol ar gynnydd y disgyblion hyn. Mae’r staff bugeiliol a staff Canolfan yr Eithin yn cydweithio’n llwyddiannus ag amryw o asiantaethau er mwyn cynnig cymorth a chefnogaeth i ddisgyblion ynghyd â hyfforddiant i staff.

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gyda disgyblion sydd â hanes o dderbyn gwaharddiadau dros dro. Maent wedi meithrin partneriaethau gwerthfawr â rhanddeiliaid allanol i gynnig cwricwlwm amgen buddiol i ychydig iawn o ddisgyblion. O ganlyniad, mae ymrwymiad y disgyblion hyn i’w hastudiaethau wedi gwella.

Rhwng y blynyddoedd academaidd 2018-2019 a 2022-2023, gostyngodd cyfradd presenoldeb yr ysgol o swm tebyg i'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Fodd bynnag, y llynedd, roedd yn is nac mewn ysgolion tebyg ac mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae’r ysgol

wedi cyflwyno cyfundrefnau monitro presenoldeb priodol. Maent yn pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb i'r disgyblion ac wedi adnabod grwpiau o ddisgyblion sydd â phresenoldeb isel. Er bod arweinwyr yn blaenoriaethu gwella presenoldeb, yn gyffredinol, nid ydynt yn defnyddio nac yn dadansoddi'r data perthnasol yn ddigon trylwyr i adnabod patrymau a monitro effaith eu gwaith ar bresenoldeb disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion arwain gweithgareddau. Trwy amryw o fforymau 'Llais Maes', mae disgyblion yn datblygu medrau arwain ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r fforymau hyn yn cynrychioli barnau disgyblion yn effeithiol, gan sicrhau newidiadau gwerthfawr. Mae'r rhain yn cynnwys diwygio'r polisi gwrth-fwlio, cynyddu'r meinciau ar yr iard a datblygu prosiect i gyflwyno adnodd synhwyrau sensori. Mae cynrychiolwyr y fforymau'n crynhoi eu gwaith a'u gweithredoedd yn effeithiol yn y cylchlythyron 'Llais Maes', ac yn rhoi diweddariadau i'w cyd-ddisgyblion yn ystod y sesiynau lles boreol a'r gwasanaethau. O ganlyniad i'r arferion cryf hyn, mae disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn ystyried eu barnau ac yn gweithredu ar eu syniadau.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo agweddau ac ymddygiadau iach yn effeithiol, gan arwain at lefelau uchel o ymwybyddiaeth am ddewisiadau iach ymhlith disgyblion. Mae'r fforwm Iechyd a Lles yn arwain gweithgareddau pwrpasol ac maent wedi llwyddo i ddatblygu arlwy bwydydd iach yn y ffreutur. Er bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn hapus â safon y bwyd, nid yw'r trefniadau yn y ffreutur yn ymateb i'w hanghenion yn llwyr.

Mae llawer o ddisgyblion yn elwa o gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n darparu ar gyfer myrdd o ddiddordebau diwylliannol, chwaraeon ac academaidd. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys nifer o glybiau chwaraeon, eisteddfodau a theithiau tramor. Mae disgyblion Canolfan yr Eithin yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gael profiadau bywyd go iawn, fel mynd i gaffi, mynd ar alldaith neu fynd i weld sioe. Mae'r profiadau hyn yn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio eu medrau'n briodol ac yn ddiogel mewn cyd-destunau y tu hwnt i'r ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim gyda chostau teithiau.

Mae'r ysgol yn darparu cyngor diduedd a chynhwysfawr o ansawdd uchel ac yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad, boed hynny yn yr ysgol, coleg neu fyd gwaith. Mae llesiant a diddordebau'r disgyblion bob amser wrth wraidd hyn. Mae cyfundrefnau cynhwysfawr i gefnogi dysgwyr wrth iddynt ymuno â'r ysgol ym Mlwyddyn 7 ac mae hyn yn eu helpu i ymgartrefu'n ddi-ffwdan. Wrth iddynt ddewis eu pynciau opsiwn ym Mlwyddyn 9 ac 11, mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth ac arweiniad buddiol i ddisgyblion er mwyn iddynt wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol. Mae'r ysgol yn trefnu nosweithiau 'Llwybrau Llwyddiannus' a sesiynau blasu sy'n darparu gwybodaeth werthfawr i ddisgyblion ynglŷn â llwybrau ôl-14 ac ôl-16.

Mae gan y tîm anghenion dysgu ychwanegol (ADY) adnabyddiaeth dda o anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu penodol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i ddod i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar trwy'r broses bontio gref sydd yn magu perthnasoedd adeiladol â theuluoedd. Mae gan yr adran ADY berthynas agos â rhieni sydd yn seiliedig ar arferion cyfathrebu rheolaidd a chlir.

Mae'r tîm yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion disgyblion, ac maent yn cydlynu'r ymyriadau i ddisgyblion ag ADY yn bwrpasol. Cydweithia'r ysgol yn agos ag amryfal asiantaethau allanol er mwyn cynnig cefnogaeth o'r ansawdd uchaf i'r disgyblion hyn. Trefnir hyfforddiant pwrpasol i staff  ar ddulliau o gefnogi disgyblion ag ADY sydd angen cymorth ychwanegol. Mae hyn oll yn cyfoethogi dealltwriaeth staff o anghenion disgyblion unigol ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu diwallu'n llwyddiannus a bod y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd meddylgar ac ystyriol sy'n uchel ei barch ymysg staff a disgyblion. Er ei fod wedi bod yn y rôl ers llai na blwyddyn, mae ganddo weledigaeth glir ac, mewn cyfnod byr, mae wedi gwneud addasiadau pwysig er mwyn cryfhau systemau a gweithdrefnau'r ysgol. Mae'n deall yn dda beth yw'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol ac yn gweithio'n ddiflino er mwyn sicrhau bod disgyblion Cwm Gwendraeth a'r dalgylch yn cael mynediad at ddysgu ac addysgu effeithiol, yn cael profiadau eang a chefnogaeth les o'r radd flaenaf. Mae lles staff hefyd yn flaenoriaeth yn yr ysgol ac mae arweinwyr wedi archwilio ffyrdd o leihau baich gwaith. Mae hyn yn cynnwys treialu trefniadau newydd ar gyfer darparu adborth i ddisgyblion.

Mae'r pennaeth wedi addasu natur cyfarfodydd yr uwch dim arwain yn addas er mwyn sicrhau bod mwy o ffocws ar gyflawni blaenoriaethau strategol. Mae aelodau'r uwch dim yn darparu cefnogaeth effeithiol i'r pennaeth ac maent yn cydweithio'n dda fel tîm arwain. Mae dyletswyddau'r uwch dîm arwain wedi eu dyrannu'n addas. Fodd bynnag, gan nad oes dirprwy bennaeth yn yr ysgol ar hyn o bryd, mae llwyth gwaith y pennaeth yn ormodol.

Mae llawer o arweinwyr canol yn effeithiol yn eu rolau ac maent yn elwa o gyfarfodydd rheolaidd gyda rheolwyr llinell er mwyn sicrhau eu bod nhw'n deall eu cyfrifoldebau ac yn arwain yn effeithiol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn glir ac yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, mae amcanion arweinwyr yn amrywiol ac, ar adegau, nid ydynt yn ddigon strategol.

Mae'r ysgol wedi gweithredu'n effeithiol wrth ymateb i lawer o flaenoriaethau cenedlaethol. Llwyddiannau penodol yw'r diwygiadau o ran anghenion dysgu ychwanegol, cryfhau'r ddarpariaeth i godi safonau rhifedd a'r gwaith parhaus i hyrwyddo'r Gymraeg.

Ceir cynlluniau addas i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae defnydd yr ysgol o'r grant datblygu disgyblion yn briodol, ac ers penodiad y pennaeth newydd, mae'r ysgol yn monitro effaith y gwariant a'r gweithgareddau cysylltiedig yn fwy rheolaidd.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n gynhyrchiol â rhieni a'r gymuned. Mae'r pennaeth yn darparu bwletin rheolaidd er mwyn lledaenu gwybodaeth am waith a rhediad yr ysgol yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn canfod barn rhieni drwy gynnal holiaduron yn ystod y flwyddyn. Mae gan staff Canolfan yr Eithin berthynas dda gyda rhieni. Mae rhieni'n gwerthfawrogi gwaith y ganolfan a'r cyfathrebu cyson sydd rhyngddynt.

Mae gan y corff llywodraethol raglen addas o gyfarfodydd ac maent yn angerddol dros sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion yr ardal. Serch hynny, nid yw rôl y corff wedi ei datblygu'n llawn. Mae'r wybodaeth sydd ganddynt am waith yr ysgol, gan gynnwys Canolfan yr Eithin, wedi cryfhau yn ddiweddar; fodd bynnag, nid ydynt yn trafod rhai meysydd pwysig yn ddigon aml ac mae hyn yn effeithio ar eu gallu i weithredu fel cyfaill beirniadol.

Mae'r pennaeth a'r swyddog busnes yn monitro cyllideb yr ysgol yn effeithiol. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn rhagweld y bydd dyled erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Maent eisoes wedi ystyried a chynllunio ar gyfer arbedion, pe bai angen. Mae'r pwyllgor cyllid yn cyfrannu at y broses o fonitro'r gyllideb yn briodol.

Mae arweinwyr yn ffocysu eu gwaith yn glir ar wella safonau a lles disgyblion ac i sicrhau addysgu o'r ansawdd gorau. Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer hunan werthuso'i gwaith. Mae bron pob arweinydd, gan gynnwys arweinwyr Canolfan yr Eithin, yn cyfrannu'n dda at brosesau hunan werthuso. Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol er mwyn casglu tystiolaeth trwy arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a chyrchu barn disgyblion a staff. Mae arweinwyr yn darparu adroddiadau manwl ar gryfderau ac agweddau o waith yr ysgol sydd angen eu gwella. Ceir enghreifftiau ble mae'r ysgol yn arfarnu rhai o'r un agweddau sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ac, ar adegau, mae hyn yn arwain at ganfyddiadau sy'n anghyson â'i gilydd. O ganlyniad, mewn ychydig o achosion, nid yw'r hunan werthusiadau bob amser yn ddigon miniog er mwyn adnabod yn union yr agweddau mae angen iddynt ganolbwyntio arnynt.

Er bod gan arweinwyr dealltwriaeth dda o waith yr ysgol, mewn mannau, mae'r defnydd a wneir o ddata yn rhy arwynebol. Nid yw tracio a dadansoddiadau'r ysgol o amrywiaeth o wybodaeth (gan gynnwys cyrhaeddiad disgyblion, ymddygiad a phresenoldeb) bob amser yn ddigon miniog er mwyn cefnogi'r broses hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn llawn.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddysgu proffesiynol lle mae ffocws clir ar ddysgu ac addysgu, arweinyddiaeth a lles. Mae arweinwyr yn cynllunio'n strategol er mwyn sicrhau bod cyswllt clir rhwng y ddarpariaeth dysgu proffesiynol a blaenoriaethau'r ysgol. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i arweinwyr a darpar arweinwyr ddatblygu ymhellach trwy raglenni hyfforddiant allanol a thrwy gyfleoedd mewnol i gysgodi gwaith arweinwyr. Ar y cyfan, mae staff yn gwerthfawrogi'r arlwy eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael ac wedi elwa o'r hyfforddiant hyn. Er enghraifft, mae ychydig o athrawon wedi cwblhau cwrs meistr trwy gefnogaeth yr ysgol ac mae ychydig wedi cyflawni cwrs allanol ar arweinyddiaeth. Mae'r ysgol yn gwerthuso'n briodol effaith y rhaglen dysgu proffesiynol ar agweddau megis dysgu ac addysgu a safonau.

## Cydymffurfiaeth statudol

**Trefniadau diogelu**

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

**Bwyta ac yfed yn iach**

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

**Cyllid ysgol**

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

**Materion iechyd a diogelwch (diogelwch y safle)**

Cyhoeddwyd llythyr diogelwch y safle i'r ALI yn gysylltiedig â phryderon.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd

- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.gov.wales/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 25/01/2024